

GIFFORD, ISABELLA (c. 1825 - 1891), botanegydd ac algolegydd

Enw: Isabella Gifford

Dyddiad geni: c. 1825

Dyddiad marw: 1891

Rhiant: George St John Gifford

Rhiant: Isabella Gifford (née Christie)

Rhyw: Benyw

Galwedigaeth: botanegydd ac algolegydd

Maes gweithgaredd: Gwyddoniaeth a Mathemateg; Natur ac Amaethyddiaeth

Awdur: Ffion Mair Jones

Ganwyd Isabella Gifford yn ne Cymru (Abertawe yn ôl un ffynhonnell, Defynnog, Brycheiniog, yn ôl ffynonellau eraill) tua 1825. Roedd yn ferch i George St John Gifford (bu farw 1869), a wasanaethodd gyda Syr John Moore ym mrwydr A Coruña ar 16 Ionawr 1809, a'i wraig Isabella (bu farw 1891), a briodwyd yn 1824. Merch i'r diwydiannwr John Christie (1774-1858) oedd ei mam: o'r Alban yn wreiddiol, ymgyfoethogodd Christie drwy fasnachu indigo yn India, gan ddefnyddio'i fodd i brynu tir y Fforest Fawr ym Mrycheiniog a chodi rhwydwaith o dramffyrdd rhwng Pontsenni a Chwm Tawe. Arddangosodd ei bwysigrwydd yn lleol drwy godi plasty bychan Glan Wysg yn 1822; fe'i penodwyd yn siryf Brycheiniog yr un flwyddyn. Wedi priodi, bu George Gifford yn gweithio am gyfnod fel asiant tir i'w dad-yng-nghyfraith, ond symudodd y teulu yn ystod plentyndod Isabella, gan dreulio cyfnodau yn Ffrainc, Ynys Jersey, Melcombe Regis, swydd Dorset, a Falmouth yng Nghernyw. Yno yr oeddynt yn byw pan fu farw unig frawd Isabella ym mis Medi 1844.

Addysgwyd Isabella gan ei mam, ac er nad oedd gan ei mam unrhyw alluoedd na diddordebau gwyddonol y mae'n bosibl bod aelodau eraill o'i theulu wedi cyfrannu at ddatblygiad a llwyddiannau'r ferch ym maes botaneg ac algoleg. Yn 1842, cyhoeddwyd cyfrol fechan yn dwyn y teitl *The Little Marine Botanist: or, guide to the collection and arranging of sea-weed*. Cysylltwyd enw Isabella â'r gyfrol hon, er nad yw'n amlwg beth yn union oedd natur ei chyfraniad. Gallai fod yn arwyddocaol, fodd bynnag, mai Darton & Sons oedd un o'r cyhoeddwyr, cwmni a oedd eisoes wedi cyhoeddi gwaith yr awdures llyfrau plant Emily Taylor (1795-1872), a berthynai i Isabella drwy briodas brawd Emily, Edgar Taylor, ac Ann Christie, chwaer i fam Isabella. Yn eu plith yr oedd gweithiau ynghylch byd natur megis *Letters to a child: on the subject of maritime discovery* (1820), cyfrol a fyddai'n sicr wedi apelio at yr Isabella ifanc. Perthynas arall i deulu Taylor oedd y daearegwr a'r tirlfesurydd Richard Cowling Taylor (1789-1851); a thrwy briodas Mary Christie, chwaer arall i fam Isabella, a'r Undodwr a'r meddyg Thomas Southwood Smith (1788-1861), daeth gwyddonydd amlwg yn rhan o'r teulu.

Mae'n debyg mai yn 1848 yr ymfudodd Isabella a'i rhieni am y tro olaf ac ymgartrefu'n barhaol yn The Parks, Minehead, Gwlad yr Haf (soniodd am ei hymweliad cyntaf â thraeth Minehead yn y flwyddyn honno). Dyma hefyd flwyddyn ymddangosiad ail argraffiad o'i chyfrol, yn dwyn yn awr y teitl *The Marine Botanist: An introduction to algology*. Y flwyddyn ddilynol, cofnododd ymwelydd nodedig ei ymweliad â'i rhieni yn Minehead; daeth y botanegydd a'r archeolegydd Charles Cardale Babington (1808-1895) heibio i gael te gyda Chapten a Mrs Gifford fin nos ar 2 Gorffennaf 1849. Pan ddychwelodd yno drachefn yr haf canlynol, nododd enw 'Miss Gifford' yn ogystal yn ei ddyddiadur. Yr oedd Isabella yn dechrau ennyn sylw gwybodusion yn y maes a'i difyrriai fwyaf, felly. Canmolwyd ail argraffiad ei chyfrol mewn un adolygiad am ei egluro clir a doeth, gan broffwydo, er nad oedd yn cyflwyno llawer o wybodaeth y tu hwnt i enwau'r rhywogaethau, y byddai ei symlirwydd yn denu dilynwyr newydd i fyd blodau morol. Datblygodd gwaith Isabella fel algolegydd gyda chyhoeddi 'Observations on the Marine Flora of Somerset' yng nghylchgrawn Cymdeithas Archeoleg a Hanes Naturiol Gwlad yr Haf yn 1852. Dangosodd yn yr ysgrif hon mor drwyadl yr oedd wedi dod i adnabod Minehead a'r cyffiniau at ddibenion ei gwaith - traethau Blue Anchor, Bossington, Warren, a Clevedon, ynghyd ag aber afon Hone - gan gyflwyno gwybodaeth am algâu a ganfyddasai yn tyfu ar y traethau hyn ynghyd â rhai a ddaethai i'r lan arnynt mewn cyflwr mor dda fel ei bod yn bur sicr na allai eu tarddiad fod ymhell oddi wrth arfordir Gwlad yr Haf. Dangosodd ei chrebwyll gwyddonol yn glir wrth drafod sut yr archwiliodd ac yr asesodd ei sbesimenau gan ddefnyddio meicrosgop i sylwi ar faint y cellanau; eu trochi mewn d r ffres a nodi'r newid lliw; trafod manteision defnyddio tynrwyd i ganfod enghreifftiau pellach mewn d r dwfn; ac, wrth gwrs, nodi pryd ac ymhle arall y canfuwyd yr un algâu, boed hynny dros ffin y sir ar draeth Lynmouth yng ngogledd Dyfnaint neu mor bell i ffwrdd â Cádiz yn Andalucia neu Seland Newydd, hyd yn oed. Ymesgusododd rhag cyflwyno rhestr gynhwysfawr o'r holl algâu a ddaeth i'w sylw gan nodi mai ei nod oedd tynnu sylw at y sbesimenau a oedd ar gael yn gyson yn yr ardal yn hytrach na rhai nad oeddynt ond i'w gweld yn achlysurol. Ategai'r agwedd hon yr hyn a ddywedwyd am ail argraffiad ei chyfrol yn 1848, gan ddangos ei dymuniad i ddemocrateiddio'r broses o chwilota a gwneud y ddisgyblaeth yn hygyrch i algolegwyr newydd. Pan gyhoeddwyd trydydd argraffiad o *The Marine Botanist* yn 1853, wedi'i ehangu'n sylweddol ac yn cynnwys darluniau lliw o blanhigion morol (gan William Dickes (1815-1892), fel yn achos yr argraffiad blaenorol), nododd Isabella yn y rhagair mor falch ydoedd bod ei hymdrechion i symleiddio astudiaeth o algoleg wedi cael eu cydnabod am eu dull syml, poblogaidd, yn ogystal â thrwyadl wyddonol, o ddwyn sylw at gangen ddifyr o fotaneg nas astudiwyd fawr ddim

arni yn y gorffennol. Rhan bwysig o'r poblogeiddio hwn oedd perthynas y gwaith â chyhoeddiadau William Henry Harvey (1811-1866), *A manual of the British marine algæ* (1841) - 'to which it will be found, I trust, a useful introductory volume', meddai Isabella mewn llythyr i'r wasg - a'i *Phycologia Britannica* (1846-51). Yr oedd ei pherthynas bersonol hi â Harvey yn gyfoes â chyfnod ei gyhoeddiadau ef: nododd ei henw ymhlith rhestr o unigolion, yn ddyinion a menywod, a gyfrannodd sbesimenau at ei waith yn ail a thrydedd gyfrol y *Phycologia Britannica*, gan ddangos pwysigrwydd rhwydweithio iddi hi a'i chydlafurwyr yn y maes. Cyswllt arall a roddodd gydnabyddiaeth o'i chymorth oedd yr algolegydd a'r botanegydd Edward Morell Holmes (1843-1930), a gofiai anfon algâu ati i'w henwi, gan dderbyn mwsoglau yn gyfnewid oddi wrthi hi iddo yntau eu henwi.

At ei llwyddiant fel algolegydd, datblygodd Isabella yn ogystal fel botanegydd. Cofiai gyda boddhad wrth fynd yn h n gyfarfod gwyddonol yn Dunster, Gwlad yr Haf, lle darllenwyd papur o'i gwaith yn y maes hwn, ac arddangos ei chasgliad o blanhigion gorllewin Gwlad yr Haf. Y mae'n bur debyg mai hwn oedd Seithfed Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Archeoleg a Hanes Naturiol Gwlad yr Haf, a gynhaliwyd ar 21-23 Awst 1855; nodir yng nghylchgrawn y Gymdeithas i bapur o waith Isabella gael ei gyflwyno, ac fe'i cyhoeddwyd o dan y teitl 'Notices of the Rare and most Remarkable Plants in the neighbourhoods of Dunster, Blue Anchor, Minehead, &c'. Nododd yn y papur ei bod wedi sylwi ar dros bum cant a hanner o blanhigion a rhedyn blodeuol yn yr ardal; gresynodd nad oedd cyfrol wedi'i hargraffu yn eu cylch, o ystyried mor eang oedd Gwlad yr Haf ac mor amrywiol ei phridd a'r cyfeiriadau daearyddol a wynebai; a dangosodd sensitifrwydd i effaith amaethu ar y rhywogaethau brodorol, a oedd yn marw, megis brodorion America wrth i'r dyn gwyn gamu tuag atynt ('dying, at the approach of cultivation, like the Red Indian disappearing from his hunting-grounds before the advancing footsteps of the white man').

Yn 1890, ymunodd Isabella Gifford â Chymdeithas Selborne, un o nifer o gymdeithasau yr ymaelododd â hwy yn ystod ei hoes, gan gynnwys y Clwb Cyfnewid Botanegol hyd 1871 a Chlwb Cyfnewid Botanegol Thirsk. Byddai wedi hoffi sefydlu cangen o Gymdeithas Selborne yng Ngwlad yr Haf, meddai, ond fe'i rhwystrwyd gan gyflyrau iechyd (cryd cymalau a niwralgia) a oedd yn ei gwneud yn bur gaeth i'w chynefin erbyn y cyfnod hwn. Ym mis Rhagfyr 1892, daeth y fflw i'w chartref hi a'i mam; bu farw ei mam ddydd Nadolig ac Isabella y diwrnod canlynol. Claddwyd y ddwy ym mynwent Minehead. Drwy law ei hysgutor a'i chefnder, Herman Southwood Smith (1819-1897), cyflwynwyd casgliad botaneg Isabella i Gymdeithas Archeoleg Gwlad yr Haf. Gwarchodwyd rhai eitemau a gasglwyd ganddi neu a ddaeth drwy ei llaw hi i gasgliadau Margaret Gatty (née Scott, 1809-73) a Philip Brookes Mason (1842-1903), y naill bellach ym Mhrifysgol St Andrews a'r llall yn Amgueddfa ac Oriol Bolton.

Awdur

Ffion Mair Jones

Ffynonellau

Charles Cardale Babington, *Memorials, Journal and Botanical Correspondence of Charles Cardale Babington* (1897); fersiwn ddigidol, Cambridge, 2013

Dienw, casgliadau Mrs Margaret Gatty (née Scott, 1809-73) a Philip Brookes Mason (1842-1903), ar [FENSORE](#)

Dienw, 'Isabella Gifford', *The Journal of Botany, British and foreign*, cyf. XXX (1892), 81-3

Dienw, '[Gifford, Isabella \(1825-1891\)](#)', ar Natural History Biographies

Dienw, 'The Marine Botanist: An Introduction to the study of Algology... By Isabella Gifford. London: Darton and Co.', adolygiad, yn *The Annals and magazine of natural history*, ail gyfres, cyf. II (London, 1848), 142-3

Isabella Gifford, 'Notices of the Rare and most Remarkable Plants in the neighbourhoods of Dunster, Blue Anchor, Minehead, &c', yn *Proceedings of the Somersetshire Archaeological and Natural History Society*, Proceedings during the year 1855, cyf. VI (Taunton, 1856), 131-7

Isabella Gifford, 'Observations on the Marine Flora of Somerset', *Proceedings of the Somersetshire Archaeological and Natural History Society*. Proceedings during the year 1852 (Taunton, 1853), 116-23; cyfeiriad at y cyfarfod ar 8-9

Isabella Gifford, *The marine botanist; an introduction to the study of algology: containing descriptions of the commonest British sea-weeds, and the best method of preserving them, with figures of the most remarkable species* (London [1848]) (2il arg.)

Isabella Gifford, [The marine botanist: an introduction to the study of the British sea-weeds: containing descriptions of all the species, and the best method of preserving them \(Brighton 1853\)](#) (3ydd arg.)

Morning Advertiser, 12 Ebrill, 17 Mehefin 1853

West Somerset Free Press, 2 Ionawr 1892

T[homas] Wilson, ffugenw Samuel Clark, *The little mineralogist: or, First book of mineralogy*(London c.1839)

Darllen Pellach

Dienw, *The Botanical Exchange Club. Report of the Curator for 1869, and List of Desiderata for 1870*(London 1870)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [310616995](#)

Wikidata: [Q16524116](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2024-01-31

Hawlfraint Erthygl: <https://creativecommons.org/licenses/by-sa/4.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

